YSGOL DEWI SANT, Y RHYL

Pennaeth: Mrs Mair Evans

Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mr John Evans

YSGOL DEWI SANT

DWY IAITH DYFODOL DISGLAIR
TWO LANGUAGES A BRIGHTER FUTURE

01745 351 355

dewi.sant@denbighshire.gov.uk

www.ysgoldewisant.org.uk

@YsgolDewiSant

@YsgolDewiSant

@ysgoldewisant

Manylion yr Ysgol

Ysgol Dewi Sant
Ffordd Rhuddlan,
Y Rhyl,
Sir Ddinbych.
LL18 2RE

Croeso

Gair gan y Pennaeth,
Mrs Mair Evans

Ceir holl benderfyniadau'r ysgol eu llywio drwy ganoli'r plentyn, er mwyn sicrhau unigolion hapus, hyderus a llwyddiannus. Ein nôd yw darparu cwricwlwm egnïol a chynhwysfawr ble ddatblygir yr awch i ddysgu a llwyddo ymysg ein disgyblion.

Yr wyf yn ffodus iawn o gael arwain tîm o staff sydd yn gweithio'n galed i uchafu potensial a safon ymysg ein disgyblion. Mae'n flaenoriaeth gennym i uchafu llwyddiant eich plentyn drwy gyd weithio'n agos gyda chwi fel rhieni/gwarchodwyr, y gymuned leol a chlwstwr ysgolion cynradd Sir Ddinbych. Credwn yn gryf i addysg eich plentyn lwyddo drwy bartneriaeth gryf rhwng yr ysgol a'r cartref bob amser.

Nid oes gennym unrhyw amheuaeth y bydd eich plentyn yn ffynnu dan adain warcheidiol staff Ysgol Dewi Sant. Drwy dderbyn y safon uchaf bosibl o addysg, a chyfleoedd yn ystod ei siwrnai ysgol, bydd eich plentyn yn barod ar gyfer y byd cyfnewidiol sydd ohoni."

Mrs Mair Evans

Disgrifiad o'r ysgol

Lleoli'r Ysgol Dewi Sant ar gyrion tref y Rhyl. Mae'n ysgol benodedig Gymraeg ac yn cynnig addysg Gymraeg i blant rhwng 3 - 11 oed, mae 98% o ddisgyblion yr ysgol wedi'u magu ar aelwydydd di-Gymraeg. Mae'n ysgol ddyddiol, gyd-addysgol. Mae'r ysgol wedi'i rhannu yn 16 dosbarth, dau ddosbarth i bob blwyddyn ysgol.

Ymweld â'r ysgol

Cyn cofrestru disgyblion yn Ysgol Dewi Sant anogir rhieni a gwarchodwyr i ymweld â'r ysgol. Mae'n bosib ffonio'r swyddfa unrhyw adeg rhwng 8:00y.b a 4.00yp i wneud apwyntiad i drefnu i weld yr ysgol. Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi derbyn disgyblion yr Awdurdod ac mae copi i'w weld ar wefan Cyngor Sir Ddinbych - https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/education/school-admissions.aspx.

Tymor 1	**Noson Agored a Noson rieni**
Tymor 2	**Noson Rieni**
Tymor 3	**Noson trafod adroddiadau**

Gwerthoedd yr ysgol

Nôd yr ysgol yw sicrhau addysg o'r ansawdd orau bosib i bob plentyn yn unol â'u hoedran, eu gallu a'u diddordebau er mwyn iddynt dyfu yn bersonoliaethau llawn, i ymarfer eu holl ddoniau a chymwyso eu hunain i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog.

Creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolion hyderus, yn ymwybodol o werthoedd moesol dyngarol, gan ddatblygu hunan-barch a goddefgarwch tuag at eraill.

Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf bosibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr unigolyn, y gymdeithas, yr Awdurdod Addysg Lleol, y Cwricwlwm Cenedlaethol, Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r llywodraethwyr.

Galluogi pob disgybl i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gallant gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog y maent yn perthyn iddi. Trwy gynnig cyfleoedd dysgu cyfoethog ac amrywiol, mae'r ysgol yn ceisio meithrin angerdd am ddysgu gydol oes. Mae athrawon yn ysbrydoli disgyblion i archwilio eu diddordebau unigol ac i ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol a datrys problemau. Mae'r rhaglenni addysgol yn cael eu cynllunio i fod yn gynhwysol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael cefnogaeth i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo cydweithredu a gwaith tîm, gan annog disgyblion i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd a dysgu gwerth cyd-dynnu. Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol ac arweinyddiaeth, mae disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a'u gallu i arwain.

Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd lles meddyliol a chorfforol disgyblion, gan ddarparu cefnogaeth emosiynol a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo ffordd o fyw iach. Mae'r gymuned ysgol gyfan—disgyblion, staff, rhieni, a llywodraethwyr—yn gweithio gyda'i gilydd i greu amgylchedd cynnes a derbyniol lle mae pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi.

Pwy 'di Pwy?

Pennaeth	Mrs Mair Evans
Dirprwy Bennaeth	Mrs Elen Williams
Arweinydd Cyfnod Sylfaen	Miss Elin Davies
Arweinydd Cyfnod Allweddol 2	Mrs Dona Williams

Dosbarth	Athro / Athrawes	Staff Ategol
Meithrin	Laura Rhys / Ceri Jones	Miss Moni Miss Ellie Miss Rhiannon Miss Gwenno Miss Catrin Miss Emily-Jay Miss Ffion Miss Alexa Mr David Miss Kara Miss Hafwen Miss Beth Miss Ceri Mrs Carty
Derbyn	Catrin Lines	
Derbyn	Megan Williams	
Blwyddyn 1	Sioned Evans	
Blwyddyn 1	Emily Hughes	
Blwyddyn 2	Elin Davies	
Blwyddyn 2	Sioned Ousey	
Blwyddyn 3	Anwen Brierley	
Blwyddyn 3	Emily Edwards	
Blwyddyn 4	Tomos Phillips	
Blwyddyn 4	Elen Williams / Dona Williams	
Blwyddyn 5	Elin Price	
Blwyddyn 5	Geraint Madoc-Jones	
Blwyddyn 6	Megan Cairns	
Blwyddyn 6	Ffion Williams	

Swyddog Gweinyddol	Catrin Davies
Derbynnydd	Helen Griffiths
Cyd-lynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	Dona Williams

Staff sy'n gyfrifol am faterion Diogelu Plant: Mair Evans, Elen Williams, Dona Williams ac Elin Davies
Staff sy'n gyfrifol am blant mewn gofal: Mair Evans ac Elen Williams

Trefn diwrnod y Cyfod Sylfaen

8:55 - 11.30	Sesiwn 1
11.30 - 12.30	Amser Cinio
12.30 - 2.00	Sesiwn 2
2.00 - 2.20	Amser Chwarae
2.20 - 3.10	Sesiwn 3

Diwrnod Meithrin bore 8:55yb hyd at 11:25yb

Diwrnod Meithrin prynhawn 12:45yp hyd at 3:15yp

Trefn y dydd CA2

8:55 - 10:30	Sesiwn 1
10:30 - 10:50	Amser chwarae
10.50 - 12.00	Sesiwn 2
12.00 - 12.50	Amser Cinio
12:50 - 3:15 (BL 3 + 4) 12.50 - 3:20 (Bl 5+ 6)	Diwedd dydd CA2

Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion peidio a chyrraedd yr ysgol tan 8:40 yb

Presenoldeb

Mae presenoldeb yn Ysgol Dewi Sant yn bwysig iawn. Disgwylir i'r plant gyrraedd yr ysgol ar amser, wedi eu gwisgo yn briodol ac yn barod i ddysgu.

Disgwylir i'r rhieni gysylltu â swyddfa'r ysgol mor fuan ag sy'n bosib i egluro absenoldeb eu plentyn.

Mae cyfraddau presenoldeb pob plentyn yn cael ei fonitro yn ofalus gan yr athrawon dosbarth, y Pennaeth a Gwasanaeth Addysg y Sir.



Gwyliau Teuluol

Annogir chi i drefnu eich gwyliau teuluol y tu allan i ddyddiadau'r tymor. Gweler y calendr am ddyddiadau'r flwyddyn academaidd nesaf.

Cydaddoli

Cawn wasanaethau boreol yn y dosbarthiadau ac un gwasanaeth torfol (fesul Cyfnod Allweddol) yn y neuadd pob wythnos. Bydd pob dosbarth yn cyflwyno gwasanaeth yn ei dro ar fore Gwener. Mae cyfle i blentyn cael eu hesgusodi o wasanaeth os gwna'r rhieni gais i'r ysgol trwy lythyr. Naws Gristnogol sydd i bob addoliad yn yr Ysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mrs Dona Williams yw Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol. Anelwn at sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn cael eu gwneud trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol ychwanegol boed y plentyn hwnnw ar ddatganiad a'i pheidio. Darperir Cynllun Addysgol Unigol i blant sy'n cael sylw ychwanegol gyda darllen, ysgrifennu, rhif ac ymddygiad.

Nod yr ysgol yng nghyd-destun Anghenion Dysgu Ychwanegol yw sicrhau bod holl blant yr ysgol yn teimlo'n rhydd i ofyn am gymorth, fod ganddynt ddiddordeb yn eu gwaith, hunan barch a'r ysgogiad i wneud eu gorau.

(Gweler y Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol am ragor o fanylion).

Ymdrin â chwynion

Mae gan yr ysgol ethos agored a chyfeillgar a mae croeso i chi drefnu i weld yr athrawon dosbarth neu'r Pennaeth i drafod unrhyw bryder. Pan fo angen codi cŵyn am unrhyw agwedd o waith yr ysgol, yn gyntaf dylid cysylltu â'r Athro dosbarth i drafod. Os na chewch eich bodloni, dylid wedyn gofyn i drafod eich cŵyn gyda'r Pennaeth Adran. Os na chewch eich bodloni gyda'r cyfarfod yna, dylid trafod wedyn gyda'r Dirprwy, ac yna gyda'r Pennaeth fel y cam nesaf i'r gŵyn. Os na ellir bodloni'r mater o fewn yr ysgol gellid cysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethol drwy swyddfa'r ysgol.

Polisïau

O fewn yr ysgol, cynllunir bolisïau ar agweddau statudol ac anstatudol sy'n hanfodol i rediad effeithiol yr ysgol. Ceir eu hadolygu gan y Corff Llywodraethol a'r athrawon yn rheolaidd.
Gall rhieni drefnu ymlaen llaw i gael gweld copi o unrhyw bolisi ac mae copïau o rai i'w cael ar wefan yr ysgol.

Addysg Rhyw

Cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fel rhan annatod o'r cwricwlwm o ddydd i ddydd. Mae'r gwersi yn briodol i oed a gallu'r disgyblion ac yn plethu'n naturiol i waith thema'r dosbarth.

Plant sy'n derbyn gofal

Trwy gyd-weithio agos ag asiantaethau eraill yr Awdurdod Lleol cefnogir disgyblion sy'n derbyn gofal yn effeithiol yn yr ysgol. Mrs Mair Evans a Mrs Elen Williams sydd â chyfrifoldeb am sicrhau effeithiolrwydd y gefnogaeth y maent yn ei derbyn a hyrwyddo eu cyflawniad. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau cefnogaeth a chymorth i'r disgyblion hyn a'u gofalwyr.

Cyfle Cyfartal

Mae gan yr Ysgol bolisi cadarn o ran Cyfle Cyfartal ac nid ydym yn gwahaniaethu ar unrhyw sail. Rhoddir cyfle i bawb gymryd rhan yn holl weithgareddau'r Ysgol ac mae copi o'r polisi ar gael i'w weld yn yr Ysgol neu ar ein gwefan.

Iechyd

Os yw eich plentyn yn dioddef o unrhyw alergedd neu gyflwr meddygol yna gofynnwn i chi ein hysbysu.

Bydd y nyrs yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i archwilio clyw a golwg y plant. Bydd cyfle i rieni ddod mewn i drafod gyda'r nyrs.

Os yw'n rheidrwydd i'ch plentyn gael meddyginiaeth, rhaid llenwi'r ffurflen caniatâd priodol i roi caniatâd i staff yr ysgol eu rhoi.

Mae croeso i blant sy'n dioddef o asthma ddod â phympiau i'r ysgol lle bydd yr athrawon yn eu cadw mewn lle diogel.

Y Cwricwlwm

Dilynir cyfres o themâu amrywiol ar draws yr Ysgol er mwyn sicrhau ystod eang o brofiadau i'r disgyblion. Er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial rydym yn targedu'r addysgu i gyd-fynd ag anghenion y disgyblion. Trwy wneud hyn gallwn gynnig yr addysg orau i bob plentyn. Defnyddir arbenigedd staff i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol trwy waith grŵp llai a chefnogaeth ychwanegol.

Gwarchod Plant

Mae gan yr ysgol ran bwysig i chwarae mewn gwarchod plant rhag cael eu cam-drin. Cadarnheir hyn gan bolisi Sir Ddinbych sy'n gosod canllawiau i aelodau o staff eu dilyn. Mae gennym ni fel ysgol ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio unrhyw bryder am gyflwr y plant i adran y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dilynir canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan i'r lythyren. Yr ydym yn cefnogi a hyrwyddo cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Dewi Sant

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon brwdfrydig iawn sydd dros y blynyddoedd wedi casglu miloedd o bunnoedd i brynu adnoddau cefnogi, tripiau allgyrsiol a llawer mwy i'n disgyblion. Mae'r gymdeithas yn cyfarfod unwaith pob hanner tymor i drefnu gweithgareddau amrywiol.

Yn flaenorol mae'r Gymdeithas wedi trefnu; Ffair Nadolig, nosweithiau ffilm, Bingo a Gŵyl Hwyl yn ddim ond rhai o restr faith digwyddiadau'r flwyddyn!

Mae'r gymdeithas yn parhau i chwilio am aelodau newydd o hyd, os oes gennych ddiddordeb i helpu allan neu i fynychu ein cyfarfodydd; cysylltwch â'r ysgol.

Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol, ond nid oes gorfodaeth ar blant i'w gwisgo. Er hyn, teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.

Gwisg Bechgyn

- Trowsus du
- Crys T Coch Ysgol Dewi Sant
- Crys chwys gwyrdd Ysgol Dewi Sant
- Esgidiau du (dim treinyrs)

Gwisg Merched

- Trowsus/sgert ddu
- Ffrog hâf werdd/coch
- Crys T Coch Ysgol Dewi Sant
- Crys chwys gwyrdd/cardigan werdd Ysgol Dewi Sant
- Esgidiau du

Polisi codi tâl am weithgareddau

Codir tâl llawn ar rieni/gwarchodwyr am y canlynol;
Am unrhyw ddifrod i eiddo'r ysgol a wneir yn fwriadol gan eich plentyn,

- Costau ymweliadau preswyl a drefnir gan yr Ysgol neu'r Awdurdod Addysg Leol (oddigerth pan roddir hawl i eithrio rhag talu)
- Costau cludiant yn ôl a blaen i'r pwll nofio.
- Gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol tuag at gostau ymweliadau addysgol; ymweliadau â'r theatr a chost gwahodd ymwelwyr/perfformwyr/grwpiau theatrig i'r ysgol.

Gweithgareddau Allgyrsiol;

Diolchwn i chi fel rhieni/ gwarchodwyr am gefnogi gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol.
Mae'r ysgol yn cynnig amrediad eang o glybiau, gweithgareddau allgyrsiol a chwaraeon o fewn yr ysgol. Gwelir y manylion yn y cylchlythyrau a'r gwefan.
Nofio: Mae disgyblion blynyddoedd 3 - 6 yn derbyn gwersi nofio. Mae'r disgyblion hefyd yn cael cyfle i gystadlu mewn cystadlaethau lleol a sirol.
Gemau: Dysgir pêl-rwyd, rygbi, pêl-droed, criced ac athletau i'r disgyblion.
Clybiau: Cynhelir clybiau celf, coginio, garddio, eco, athletau, codio, rygbi a phêl-droed ar ôl oriau ysgol. Manylion ar gael trwy'r cylchlythyrau.

Y defnydd o'r iaith Gymraeg

Gan fod yr ysgol yn ysgol swyddogol Gymraeg disgwylir i rieni a disgyblion fod yn frŵd dros addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Disgwyliwn i'r disgyblion ddangos parch a balchder yn yr iaith Gymraeg drwy ddefnyddio'r iaith yn rheolaidd tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Ceisiwn ennyn balchder yn y disgyblion tuag at iaith, diwylliant, hanes a threftadaeth Cymru.

Nôd yr ysgol yw sicrhau bod ein disgyblion yn rhugl yn y ddwy iaith – Cymraeg a Saesneg – ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er mwyn cyrraedd y nôd hwn dysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Dysgir Saesneg i'r disgyblion fel pwnc ym mlynyddoedd 3 i 6. Ar ddiwedd eu cyfnod yn Ysgol Dewi Sant gall y disgyblion barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Uwchradd trwy fynychu Ysgol Uwchradd Glan Clwyd. (http:/www.ysgolglanclwyd.co.uk/)

Iechyd a Diogelwch

Mae diogelwch yn bwysig iawn i ni yma yn Ysgol Dewi Sant a hoffwn eich sicrhau fel rhieni/gwarchodwyr y gwnawn bopeth posibl i wneud yn siŵr bod eich plant yn ddiogel tra byddan nhw o dan ein gofal. Mae'r camau canlynol wedi'u cymryd i sicrhau diogelwch eich plentyn:

- Camerâu 'CCTV' o amgylch safle'r ysgol.
- Y nifer cywir o staff allan ar ddyletswydd bob amser chwarae/amser cinio.
- Rheolau pendant y mae pob plentyn yn yr ysgol yn ymwybodol ohonynt.
- Mae sawl aelod o staff wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf.

Disgyblaeth

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn safon uchel yr ymddygiad a ddangosir gan y disgyblion. Maent yn dangos cwrteisi a charedigrwydd tuag at rieni, ymwelwyr, staff a thuag at eu hunain ac yr ydym yn awyddus iawn i gadw'r safon uchel hon gan ein bod yn teimlo'n gryf bod ganddo effaith uniongyrchol ar berfformiad addysgiadol, ynghyd â pharatoi plant am y dyfodol.

Gair gan deuluoedd yr ysgol

"Gall anfon eich plant i ddysgu iaith newydd yn dair oed swnio yn frawychus, yn enwedig os ydych o gefndir di-Gymraeg. Fodd bynnag, o'n profiad ni, gallwn eich sicrhau bod anfon eich plant i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn hynod werthfawr ac yn rhoi set o arfau iddynt a fydd yn eu rhoi o flaen eu cyfoedion yn y dyfodol. Mae byw yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd gŵych i bawb, ond gall bod yn ddwyieithog wneud cymryd rhan yn y cyfleoedd hynny yn fwy hygyrch."

"Rwyf wedi darganfod mai un o'r nifer o feysydd rhagorol yn narpariaeth Ysgol Dewi Sant yw eu gallu i gofleidio plentyn a'i deulu waeth beth fo'i brofiad a'i allu yn y Gymraeg a darparu addysg ddwyieithog o'r radd flaenaf i bawb."

Gair gan deuluoedd yr ysgol

"Mae holl gohebiaeth gan yr ysgol yn cael eu gyflwyno'n ddwyieithog. Dechreuodd ein mherch datblygu ei hiaith Gymraeg o'r feithrin a chymerodd at y ddwy iaith yn iawn. Ers hynny, rydym wedi anfon ein dau blentyn arall i Ysgol Dewi Sant a byddwn yn anfon ein dau blentyn lleiaf yma hefyd. Mae ein hynaf bellach yn yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ac yn gwneud yn ardderchog."

"Mae'r plant yn cael eu trochi yn iaith a diwylliant Cymru yn Ysgol Dewi Sant ac wedi datblygu cymaint o falchder ac ymdeimlad o berthyn i'w hysgol, eu cymuned ehangach a'u gwlad."

"Rydym yn deulu o bedwar, mae Mam yn ddwyieithog a Dad yn siarad Saesneg yn unig. Mae ein dwy ferch wedi mynychu Ysgol Dewi Sant ers y meithrin yn 3 oed. Roedd gan Dad dealltwriaeth gyfyngefog o'r Gymraeg ond mae hyn wedi gwella'n sylweddol ers clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ein cartref, (nid oes modd siarad amdano mwyach heb iddo ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud!)
Mae'r ddwy ferch wrth eu bodd yn mynychu Dewi Sant a does gennym ni ddim byd ond canmoliaeth i bob aelod o staff. Mae'r ysgol fel un gymuned fawr. Mae staff bob amser yn gwenu, yn hawdd mynd atynt ac yn hapus i gefnogi/helpu mewn unrhyw ffordd sydd ei angen."